



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

11 Medi 2020

9:00 am to 11:30 yb

Trwy gyfrwng MS Teams

Yn bresennol: Teresa Owen, Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Morwena Edwards, Bethan E Jones, Chris Stockport, Clare Budden (tan 10:00 yb), Cyng Bobby Feeley (tan 10:00 yb), Cyng Joan Lowe, Cyng Louise Emery (tan 11:00 yb), Craig Macleod (ar ran Neil Ayling), Estelle Hitchon, Fon Roberts (ymunodd â'r cyfarfod am 9:30 yb), Helen Corcoran, Kate Devonport (ar ran Jenny Williams), John Gladston, John Gallanders, Judith Greenhalgh, Kevin Roberts, Lynda Colwell, Lucy Reid, Mark Wilkinson (MWil), Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling (tan 10:00 yb), Nicola Stubbins, Rob Smith, Shan Lloyd Williams

Ymddiheuriadau: Jenny Williams, Roma Hooper, Cyng Christine Jones, Cyng Dafydd Meurig, Peter Williams, Ffion Johnstone, Steve Gadd, Catherine Elaine Jones, Cyng Llinos Medi Huws

Hefyd yn bresennol: Linsey Waters, Digartref, LIC

Yr Athro Nicky Callow, Deon, Coleg Gwyddorau Dynol, Prifysgol Bangor ac aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd

Shelley Davies, Pennaeth Partneriaeth ac Integreiddio, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, LIC

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

2 Nodiadau a gweithredoedd o'r cyfarfod diwethaf - Awst 2020

Cytunwyd fod cofnodion cyfarfod 7.8.20 yn rhai cywir.

Gweithredoedd a Gwblhawyd:

- LS/BJE i drafod Strategaeth Dementia gyda JGa
- Cyflwyniad ar ddigartrefedd – ar yr agenda heddiw

- Trefnu cyfarfod TO/BJE ac aelodau cyfetholedig - trefnwyd ar gyfer 11.9.20
- Diweddarwyd a dosbarthwyd Cynrychiolydd Gofalwyr Eol
- Canllawiau Rhan 9 SSWBA – trafodaeth am aelodaeth sy'n weddill – gohiriwyd tan gyfarfod Bwrdd mis Hydref
- Adroddiad ysgrifenedig H&CRG i gynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa – ar yr agenda heddiw

Gweithredoedd sy'n disgwyl sylw:

- Profi mewn Cartrefi Gofal - TO i drafod â MWim
- Blaen adroddiad cryno i fynd trwy lywodraethiant a phroses ddemocrataidd ALL a PBC – dywedodd BJE y bydd yr adroddiad cryno ar gael wedi i'r Strategaeth Dementia gael ei diweddarau a'i hadolygu yn unol â Covid ac ystyried y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf - BJE
- Cynllun gaeaf i'w gyflwyno wedi iddo gael ei gwblhau - BJE
- Adroddiad Ffocws a Blaenoriaethau - BJE
- Atal ac ymateb i Covid-19 yng Nghymru – MWil i roi adroddiad diweddarau

3 Fframwaith Cynllunio Strategol i'r Gwasanaethau Cymorth Tai -

Linsey Waters/ Helen Corcoran/Clare Budden/Shan Lloyd Williams

Ar hyn o bryd, mae Linsey Waters, Uwch Swyddog Prawf, wedi'i secondio i LLC ac mae'n arwain ar ddigartrefedd o ran Cyfiawnder Troseddol. Rhoddodd LW gefndir y gwaith yng nghyd-destun Covid:

- Dyfarnwyd cyllid Cyfnod 1 (£10M) am lwyddo i ddod â phobl i lety argyfwng yn ystod Covid.
- Mae Cyfnod 2, £40M ychwanegol, yn golygu symud unigolion ymlaen o lety argyfwng a datblygu llety â chymorth effeithiol, felly'n osgoi mynd yn ôl i gysgu allan.

Mae 30 o gynlluniau cyfalaf wedi darparu dros 700 o welyau newydd i'r system, ac wedi rhoi cymorth i adolygu anghenion cymhleth, lechyd Meddwl, camddefnyddio sylweddau. Bydd y camau nesaf yn edrych ar weithgaredd ALLau yn y tymor byr a hir. Apeliodd LW ar i unigolion sydd â rhan mewn unrhyw un o'r prosiectau sicrhau fod Heddlu Gogledd Cymru a HMPPS yn cael eu cynnwys hefyd er mwyn rhoi cefnogaeth yn y trafodaethau i gyd.

Rhoddodd SLW drosolwg ar Gymdeithasau Tai a digartrefedd a'r gweithgaredd sy'n digwydd ar draws Gogledd Cymru.

Mae Cymdeithasau Tai yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol, yn cynnwys cynnig eiddo gwag i aelwydydd digartref o'u cofrestri tai.

Y nod cyffredinol yw peidio â throi neb allan i ddigartrefedd – a dangosodd un Landlord Tai Cymdeithasol (LCC) leihad o 85% y llynedd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i osgoi troi allan o lety dros dro hefyd ac mae amryw o offerynnau ar gael i helpu tenantiaid.

Mae 3 o'r LCC yn darparu llety pwrpasol a chefnogaeth i bobl ifanc 16-25 oed. Mae cyfradd uchel o lwyddiant ac maent yn gwneud gwaith datblygu pellach yn Ynys Môn, Wrecsam a Sir y Fflint wedi'i ariannu gan gyfnod 2 y grant digartrefedd a'u harian eu hunain.

Mae 2 o'r LCC yn darparu llochesau Trais Domestig a gwasanaethau cymorth ehangach yn y maes ac mae 5 LCC â rhan mewn prosiectau Tai yn Gyntaf.

Mae 2 LCC hefyd yn cynnig cymorth allgymorth ac fel y bo'r angen i unigolion digartref yng Nghonwy, Dinbych, a Gwynedd ac Ynys Môn.

Cyfnod 1 – Yn ystod Covid-19, darparwyd cryn nifer o eiddo i'w defnyddio gan awdurdodau lleol fel llety parhaol neu dros dro i aelwydydd digartref. Ail-fodelwyd y llety presennol hefyd i gydymffurfio â rheoliadau Covid-19, yn cynnwys ein ffoaduriaid. Ad-drefnwyd gwasanaethau hefyd er mwyn cynnig cymorth o bell a rhoddodd SLW nifer o enghreifftiau.

Gan edrych ymlaen at Gyfnod 2, mae nifer o gynlluniau ar y gweill, e.e. defnyddio adeiladau LCC i bobl ddigartref, fflatiau llety â chymorth ac ail-fodelu fflatiau a llety i bobl ifanc. Rhoddwyd cyllid i adeiladu cartrefi newydd yn lle llochesau nos ac mae gwasanaethau cymorth tenantiaeth ar gael i helpu'r digartref. Mae LCC hefyd yn secondio staff i Gyngor Gwynedd fel bod mwy o bobl i helpu'r digartref.

Diolchodd CB am y cyfle i gyflwyno am ddigartrefedd yn y cyfarfod. Mae'n debyg mae hwn yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyntaf i gael y cyfle i archwilio'r cynllun cymorth gweithredu digartref a anfonwyd i'r Gweinidog yn ddiweddar. Gofynnodd CB i'r aelodau i gyd ddarllen yr adroddiad hwn.

Cafodd adroddiad Cyfnod 1 a Chyfnod 2 groeso cynnes gan LIC, a rhagwelir cymorth gan LIC.

Mae'r adroddiad pwysig hwn yn nodi nad problem tai yw digartrefedd yn unig, ond yn hytrach problem sylfaenol y mae gan bawb gyfrifoldeb i'w thaclo. Dengys tystiolaeth broblemau tlodi ac iechyd, ac mae'r grŵp gweithredu yn adnabod partneriaethau cryf i atal digartrefedd mewn llawer o achosion.

Nododd CB ymhellach fod LIC yn disgwyl i ALLau a Chymdeithasau Tai beidio â throi tenantiaid allan a bod angen partneriaeth gref i gyflawni'r gofyniad hwn, gydag agwedd 'Dim Drws Anghywir' i daclo digartrefedd, drwy ymyrryd yn gynnar cyn bod pethau'n mynd i'r pen.

Mae CB yn cynnig fod partneriaethau'r Bwrdd yn dod ynghyd yng Ngogledd Cymru i ddatblygu Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol.

Croesawodd LR y diweddariad gan roi cefnogaeth lawn i'r prosiect hwn, a nododd yr effaith mae hyn yn ei gael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd RS yn cefnogi'r prosiect yn llwyr hefyd ac awgrymodd gysylltu â'r gwaith amlasiantaeth sydd eisoes yn digwydd yn lleol, ac ehangu gwaith Rhaglenni Trawsnewid Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Cymunedol i gynnwys y llif gwaith hwn, er mwyn osgoi sefydlu cynlluniau newydd. Cytunodd KR ag RS ynglŷn â defnyddio grwpiau sy'n bodoli'n barod.

Dywedodd HC y bydd Cyfnod 2 yn golygu hefyd sicrhau fod pawb yn ymwybodol ac yn cael eu henwi ar y llwybrau sy'n gysylltiedig ag Iechyd Meddwl wrth i ni symud ymlaen a chynnwys yr heriau a ddaw yn sgil Covid.

Tynnodd NS sylw at y Grŵp Rhanbarthol Cefnogi Pobl (GRCP), sydd â nifer eang o randdeiliaid a strwythurau yn eu lle i ymgymryd â'r llif gwaith hwn.

Nododd BJE hefyd y dylai'r GRCP, o fewn canllawiau Rhan 9 a ddiweddarwyd, adrodd yn ôl i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

O'r 700 o lefydd newydd, holodd JGa, a oes rhaniad rhwng faint sy'n unedau lloches argyfwng a faint sy'n rhai symud ymlaen ac a oes cyllid refeniw digonol am fod ar gael ar gyfer y gefnogaeth gofleidiol hanfodol. Atebodd LW fod y rhain yn cael eu cyllido ar y sail fod ail-gartrefu'n digwydd yn gyflym. Mae £10m o gyllid refeniw sy'n canolbwyntio ar gefnogaeth gofleidiol.

Soniodd EH am bwysigrwydd digartrefedd wrth ddod dros Covid.

Yn olaf, dywedodd LW, fod LIC a HMPPS, cyn Covid wedi datblygu strategaeth ar y cyd mewn ymateb i ddigartrefedd ac o fewn y cyd-destun hwn sefydlwyd tasgluoedd atal digartrefedd. Bydd grŵp rhanbarthol Gogledd Cymru yn cyfarfod yn yr wythnosau nesaf ac awgrymodd LW y gellid defnyddio'r grŵp hwn ar gyfer y gwaith.

Cytunodd SLW y byddai hyn yn ddechrau da, yn rhoi sicrwydd o fonitro a dod o hyd i ffordd o oresgyn y rhwystrau er mwyn cael gwell canlyniad i bawb.

Cytunodd CB hefyd fod y mecanwaith y cyfeiriodd LW ato yn un opsiwn. Gellid hefyd defnyddio llif gwaith Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol a chytunwyd i gysylltu â chydweithwyr (a'r Bwrdd Cefnogi Rhanbarthol) a allai helpu i roi eglurder pellach o ran ehangu cylch gwaith y grwpiau presennol.

4 Cyflwyniad a thrafodaeth ar Ysgol Feddygol Gogledd Cymru – Yr Athro Nicky Callow, Coleg Gwyddorau Dynol, Prifysgol Bangor

Rhoddodd NC drosolwg bras o'r cyd-destun rhanbarthol, gan roi ciplun o'r ddarpariaeth gyfredol yn yr ardal, tynnu sylw at yr achosion busnes y mae Prifysgol Bangor a'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio arnynt a'u cyflwyno i LIC.

Mae Prifysgol Bangor hefyd yn cynnig cyfleoedd comisiynu gyda myfyrwyr mewn gwahanol ddisgyblaethau proffesiynol sy'n gweithio ac yn hyfforddi gyda'i gilydd h.y. iaith a lleferydd; parafeddygon; cyrsiau arbenigol yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer; amryw o gyfleoedd ymchwil a'r opsiwn i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gyda 70% o'r staff yn medru'r Gymraeg.

Byddai Ysgol Feddygol o fudd i Ogledd Cymru oherwydd:

- Pwysau gweithlu, recriwtio a chadw.
- Gallu ymchwil yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth ranbarthol
- Arbedion yn caniatáu ail-fuddsoddi
- Gwella effaith economaidd yn yr ardal

Bydd yr achos Busnes Amlinellol Strategol yn paratoi'r ffordd i achos busnes llawn fydd yn mynd i'r afael ag Addysg a Sgiliau, Ymchwil, Menter ar Arloesi, Ymgysylltu a Chyfathrebu a Seilwaith, digidol ac ystadau drwy Swyddog Rheoli Rhaglen yn gweithio gyda rhanddeiliaid lleol.

Croesawodd CS yr achos busnes gan gefnogi'n llawn y cynnig sydd â'r potensial i chwyldroi Gogledd Cymru, nid yn unig yn fanteisiol i recriwtio a chadw ond hyfforddiant rhyngddisgyblaethol hefyd, gan ddod â diwedd i'r seilos hyfforddi i ymarferwyr iechyd.

Holodd BJE a oedd cyfle i gael trafodaeth ynghylch a ellir cysylltu'r Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwelliant â'r cynllun hwn er mwyn diogelu ei barhad. Sefydlwyd yr Hwb fel gofyniad LIC 'Cymru Iachach' ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i ariannu drwy grant LIC, sydd newydd gael ei ymestyn hyd at fis Mawrth 2022.

Cadarnhaodd NC, wedi cwrdd yn barod â chydweithwyr ymchwil PBC i fapio adolygiad LIC, fod yn rhaid cyflwyno dogfennau cychwynol y Bwrdd Iechyd ar y gwaith hwn a chynigiodd fod cydweithwyr o Brifysgol Bangor yn cael eu gwahodd i eistedd ar Fwrdd Strategol yr Hwb er mwyn helpu gyda'r gwaith yma.

Cytunodd EH fod edrych eto ar statws y brifysgol yn gyfle ardderchog, a dywedodd fod YGAC hefyd yn ystyried ymgeisio am statws ymddiriedolaeth brifysgol yn y rownd hon.

Roedd MWil yn gryf o blaid y cynnig a holodd am y camau nesaf dros y 6 i 12 mis nesaf.

Dyweddodd NC fod y brifysgol bellach yn disgwyl caniatâd i symud ymlaen ag achos busnes llawn. Roedd trafodaethau llafar yn amlinellu'r achos wedi cael derbyniad cadarnhaol a disgwylir y drafodaeth ddiwedd Medi. Dywedodd NC hefyd y bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn bwysig iawn o ran mapio rhanddeiliaid mewn perthynas â'r achos rhyngddisgyblaethol.

Diolchodd TO i NC am ei chyflwyniad llawn gwybodaeth a gafodd dderbyniad da iawn gan aelodau'r Bwrdd a gofynnodd iddi barhau i hysbysu'r Bwrdd am y gwaith.

5 Plant a Phobl Ifanc – Craig Macleod

- **Dim Drws Anghywir, Cyflwyniad y Comisiynydd Plant i'r Bwrdd**
- **Cyflwyniad ar ddull Gogledd Cymru o ymateb i argymhellion yr adroddiad**

Mae Dim Drws Anghywir, gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, yn rhoi canfyddiadau o'r arddodiad a edrychodd ar brofiadau plant, sy'n aml yn aros yn rhy hir am yr help sydd ei angen arnynt, ac yn cael eu taflu'n ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau nad ydynt yn gallu cytuno pwy sy'n gyfrifol am eu gofal.

Un o'r argymhellion a wnaed gan SH yw symud tuag at ddull 'Dim Drws Anghywir' yn y rhanbarth i ymateb i anghenion emosiynol, lles a meddyliol plant a phobl ifanc. Dylai'r gwasanaethau lapio o amgylch plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a stopio dibynnu ar deuluoedd yn gorfod canfod eu ffordd o amgylch systemau dyrys.

Mae help cynnar integredig yn allweddol ar bob cam o anghenion plant h.y. o ganolfannau galw heibio i gael mynediad cynnar lle mae plant angen darpariaeth breswyl integredig. Argymhelliad arall yn yr adroddiad yw'r angen i ailymweld â chynlluniau i blant ag Anableddau Dysgu, gan fod y cyfnod pontio yn gymhleth ac yn peri straen.

Dyweddodd CM, o safbwynt Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru (PGPGC), fod canfyddiadau 'Dim Drws Anghywir' yn atseinio profiadau plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru, er gwaetha'r ymdrechion gorau a'r bwriadau da.

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc, a ddatblygwyd fel rhan o'r 'Cymru Iachach', yn pwysleisio cefnogaeth gynnar i blant a phobl ifanc drwy'r rhanbarth, yn gweithio i fodel glinigol, dull aml systemig ac ystyried dulliau digidol gydag addysg ac lechyd a Gofal Cymdeithasol i helpu gwytnwch plant a phobl ifanc.

Mae dal i fod yn heriol yng Ngogledd Cymru dod o hyd i ddarpariaeth arbenigol o lefydd preswyl i bobl ifanc, a gorfod dibynnu ar leoliadau y tu allan i Gymru, sydd yn ddud a ddim yn cyflawni deilliannau gwell. Daw'r lleoliadau yn dilyn argyfwng ac mae angen cymorth integredig cynnar.

Y camau nesaf:

- Cyllid Gofal Integredig a chefnogaeth gan y Bwrdd Rhanbarthau Lleol i gomisiynu opsiynau ynghylch model cymorth therapiwtig.
- Opsiynau ar gyfer sicrhau dull partneriaeth integredig
- Adeiladau ar y dysgu sy'n bodoli'n barod yn y rhanbarth
- Adeiladu ar y negeseuon allweddol yn yr adroddiad ar 'Ddarparu llety diogel i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion arbennig o gymhleth'
- Datblygu dull cydlynol a chyson sy'n bodloni egwyddorion 'Dim Drws Anghywir' oddi mewn i fframwaith rhanbarthol sy'n ymateb i alw ac angen lleol
- Buddsoddiad refeniw a chyfalaf parhaus gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwreiddio trawsnewid ac adeiladu capasiti

Nododd CM hefyd fod 5 argymhelliad i'r Byrddau Partneriaeth yn adroddiad Dim Drws Anghywir, yn cynnwys 'Dylai'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynllunio a gweithredu dull 'dim drws anghywir' i iechyd meddwl a lles'. Dywedodd CM fod y 4 argymhelliad arall yn mynd rhagddynt ac mae SH wedi addo dychwelyd i'r Bwrdd i wirio ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y rhanbarth.

Diolchodd LR i CM a chadarnhaodd gefnogaeth ar ddarn arall o waith pwysig; mae symleiddio prosesau a darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir yn hanfodol.

Fel arweinydd Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc, diolchodd NS hefyd i CM, PGPGC a Chyfarwyddwyr Ardal PBC dros Blant a'u partneriaid ehangach am yr adroddiad. Mae'r cynnydd yng Ngogledd Cymru yn gyffrous, yn treialu modelau arloesol tra'n gweld gwelliannau i blant a'u teuluoedd.

Nododd FR hefyd y bydd hyn y golygu ffordd newydd o weithio i bawb ac erfyniodd ar bob partner i fod yn barod i dderbyn y gofyniad hwn ar unwaith.

Roedd y Bwrdd yn gytûn ei fod yn cymeradwyo'r argymhellion a gofynnwyd i CM ddiweddarau'r Bwrdd ar gynnydd yn rheolaidd.

6 Cyn ymgynghori - Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad, Cod Ymarfer a Chanllawiau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Shelley Davies, Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, LIC

Derbyniodd y bwrdd ddiweddiariad llafar gan SD ar 'Ddatblygu Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad'. Nod y rhain yw sicrhau marchnadoedd sefydlog a gwydn i ofal cymdeithasol oedolion a phlant ar draws Cymru.

O dan y Ddeddf Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (adran 144B) mae awdurdodau lleol yn gorfod paratoi a chyhoeddi Adroddiadau lleol ar Sefydlogrwydd y Farchnad (MSR). Rhaid i'r rhain gael eu gwneud a'u perchenogi gan y Bwrdd Partneriaeth i gyd, gyda phob partner yn cyfrannu fel sydd angen ar – asesu digonolrwydd y ddarpariaeth gofal a chymorth ym mhob ardal ALL; unrhyw fater arall sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau rheoledig fel y rhagnodwyd yn y rheoliadau ac effaith defnyddio swyddogaethau gwasanaethau lleol ALL i gomisiynu gwasanaethau. Rhaid i'r MSR ystyried hefyd yr asesiadau poblogaeth a gyhoeddwyd ddiweddaraf / Cynlluniau Ardal, ac ymgynghori â'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Y prif gerrig milltir:

- Cyfnod ymgynghori (10 wythnos) 14 Medi -23 Tachwedd 2020
- Dadansoddiad ôl-ymgynghori / diwygiadau – Rhagfyr 2020
- Rheoliadau drafft / gosod y cod gerbron y Senedd – Ionawr 2021
- Dadl lawn (gweithdrefn gadarnhaol) – Chwefror 2021
- Dyddiad CIF (rheoliadau a chod/canllawiau) – 1 Ebrill 2021
- Cynhyrchu PNAs – 1 Ebrill 2022
- Cyhoeddi MSR cyntaf (tri mis ar ôl PNA) – 1 Mehefin 2022
- Cynhyrchu Cynlluniau Ardal – Ebrill 2023

Bydd aelodau'r Bwrdd yn cael cyfle i roi adborth yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, fel uchod.

Gofynnodd MWim, er ei fod yn sylweddoli'r angen i gael terfynau amser, am hyblygrwydd ar faterion ymgynghori gan y gallai fod mwy o ansicrwydd oherwydd problemau capasiti a chynllunio i'r gaeaf. Mae'r sector cartrefi gofal yn parhau i fod yn farchnad fregus ac mae angen ail-fantoli hanfodol i'r sector i gyd.

Dywedodd SD fod yr ymgynghoriad yn rhwym wrth derfynau amser deddfwriaethol. Ceir darlun llawn o effeithiau Covid ar y sector gofal erbyn mis Rhagfyr, a fydd yn bwysig ar gyfer sefydlogrwydd hirdymor y farchnad.

Diolchodd ME i SD am y cyflwyniad ac roedd hi'n cytuno ar y mater cartrefi gofal. Cynigiodd ME hefyd ddefnyddio'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol i ddatblygu ymateb i'r darn enfawr hwn o waith a allai amlygu problemau strategol yn y sector sy'n gofyn am gyllid trawsnewid byrdymor gan LIC i'w cwblhau.

Dywedodd SD nad oes statws cyfreithiol i'r Bwrdd Partneriaethau Lleol a gwaith yn y dyfodol. Bydd y gwaith a wneir gan y Bwrdd yn mynd a ni i ryw bwynt ond gall y camau nesaf fod yn wahanol o ran cyfeiriad a newidiadau sylweddol o bosibl. Bydd y Bwrdd yn bwydo i mewn i ddarnau o waith yn y dyfodol megis sut dylai dyfodol y Gwasanaethau Cymdeithasol edrych. Bydd yr atodlen wedi'i chwblhau yn offeryn defnyddiol i lywio penderfyniadau lleol yn ogystal â rhai cenedlaethol.

Yn dilyn trafodaeth helaeth, roedd y Bwrdd yn cytuno â chynnig ME, a bydd y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol yn ymgymryd â'r darn hwn o waith ac yn paratoi ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y rhanbarth.

Yn olaf, apeliodd KD ar i Wasanaethau Plant beidio â chael eu hanghofio yn y cyfnod Covid. Maen nhw eisoes mewn argyfwng heb ddigonolrwydd ac yn gweld lleoliadau heb eu rheoleiddio.

7 Adroddiad Blynyddol Drafft y Bwrdd – Bethan Jones Edwards

Cyflwynodd BJE y fersiwn fwyaf diweddar o adroddiad blynyddol y Bwrdd Partneriaethau, yn dilyn cais gan aelodau am sylwadau.

Gofynnodd BJE am gael derbyn unrhyw adborth ychwanegol cyn gynted â phosibl fel y gellir cytuno ar y ddogfen derfynol a'i chyfieithu yn barod i'w darparu 'er gwybodaeth' yn y cyfarfod nesaf 9.10.2020 cyn ei chyflwyno i LIC erbyn 16.10.2020.

Cynhwyswyd astudiaethau achos yn yr adroddiad i ddangos enghreifftiau o sut mae ICF a ffrydiau gwaith eraill wedi helpu dinasyddion yng Ngogledd Cymru.

Gofynnodd BJE hefyd i'r aelodau gadarnhau drwy e-bost a ydynt wedi cwblhau'r cwrs Cymraeg 10 awr ar-lein (gweithred o gyfarfod y Bwrdd Chwefror 2020) fel y gall y Bwrdd amlygu i LIC ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg a gellir cynnwys cyfanswm y rhai a'i cwblhaodd yn yr adroddiad blynyddol.

Cytunodd TO ysgrifennu'r rhagair y cadeirydd i'r adroddiad, a diolchodd i BJE am y gwaith a wnaeth yn paratoi'r adroddiad.

Camau Gweithredu:

- Adborth ychwanegol i'w dderbyn erbyn 18.9.2020
- Aelodau'r Bwrdd i gadarnhau par. y cwrs Cymraeg ar-lein erbyn 18.9.2020
- TO i wneud rhagair y cadeirydd erbyn 18.9.20

8 Cynllun Ch3 a 4 BIPBC (cynllun gaeaf) – Mark Wilkinson

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad llafar gan MWil ar 'Ddatblygu Ein Cynllun i Gyflawni Gwasanaethau yn ystod Gaeaf 2020/21'.

Tynnodd MWil sylw at y ffaith fod Cymru'n parhau i fod ynghanol pandemig byd-eang, gyda chynnydd yn yr achosion a welwyd yng Ngogledd Cymru. O ganlyniad, mae modelu i'r dyfodol yn arbennig o ansicr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cynllunio ar gyfer Ch3 a 4 yn mynd rhagddo, ynghyd â myfyrio ar agendâu gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, ymateb i'r fframwaith gweithredu, ac un gwasanaeth a chynllun gweithgaredd i'r Bwrdd lechyd.

Mae nifer o gynlluniau ar y gweill ar draws y rhanbarth:

- Sefydliadol ac amlasiantaeth.
- Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i greu cynllun trosfwaol i Ogledd Cymru.
- Cynllun atal ac ymateb i Covid-19 Gogledd Cymru
- Cynllun gaeaf (ymchwydd) – disgwylir canllawiau gan LIC, fodd bynnag yn y cyfamser gwelir cynnydd ar y gwaith hwn, a allai newid ychydig wedi derbyn y canllawiau.
- Cynllun gweithredu cartrefi gofal
- Brechu torfol (COVID-19)
- Cynllun Ch 3 a Ch4 BIPBC
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwelliant o dan nawdd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Dysgu gan COVID 19
- Grŵp Adfer lechyd a Gofal / Rhannu Gwybodaeth drwy ein cell wybodaeth lechyd a Gofal ar y cyd

Y prif ffactor yw osgoi niwed neu geisio cadw'r niwed i'r lleiafswm:

- Niwed gan Covid ei hun
- Niwed GIG a gwasanaeth gofal cymdeithasol wedi eu gorlwytho

- Niwed gan weithredoedd cymdeithasol ehangach/cyfnod clo

Cyflwynwyd drafft cyntaf o'r cynllun Atal ac Ymateb i Covid i LIC. Cynllun yw hwn rhwng PBC a'r 6 ALI i atal brigadau o achosion pellach, gweithredu ac ymateb.

Mae Prawf, Olrhain a Diogelu (TTP) hefyd yn elfen bwysig o'r gwaith ynghyd ag ymdrech amlasiantaeth, gyda gwasanaethau sylweddol a ddechreuwyd o'r dechrau yn rhan hanfodol o'r ymateb i gadw pobl yn ddiogel.

9 Grŵp Adfer Iechyd a Gofal (GAI&G) – Judith Greenhalgh/Bethan Jones Edwards

Cafodd y bwrdd ddiweddariad gan JG ar sefyllfa bresennol a chynnydd y Grŵp Adfer Iechyd a Gofal Rhanbarthol.

Hysbysodd JG mai pwrpas y grŵp oedd cynnal trosolwg strategol rhanbarthol ar y rhaglenni adfer i iechyd a gofal, o dan arweiniad y Grŵp Cydlynu Adfer, yn dilyn y cyfnod ymateb rhanbarthol i Covid-19.

Yn dilyn gweithdy gydag aelodau'r Bwrdd, nodwyd fod nifer o feysydd gwasanaeth angen agwedd ranbarthol at adferiad. Bydd adroddiad gwaelodlin a gomisiynwyd (adroddiadau dadansoddiad sefyllfaol (SAR)) o bob ffrwd waith yn adrodd yn rheolaidd i'r GAI&G, gan roi gwybodaeth ar lefel uchel am y gwaith sy'n digwydd yn dangos y sefyllfa bresennol, materion allweddol i adfer, risgiau a lliniaru a rhyngwynebâu â grwpiau eraill ayb. Cesglir yr wybodaeth yma i gyd a'i rhoi mewn cynllun cynhwysfawr i'r gaeaf. Mae Senario Achos Gwaethaf Rhesymol yn cael ei archwilio hefyd i fodelu'r gwaith yn ymarferol.

Sefydlwyd grŵp cell data hefyd, o dan arweiniad PBC gyda mewnbwn gan asiantaethau allweddol a gafodd y dasg o ystyried dod â'r data sy'n bodoli'n barod o POD, ysbytai, cartrefi gofal, ac argaeledd gofal yn y cartref er mwyn creu dangosfwrdd i fonitro'r sefyllfa, gyda'r bwriad o rybuddio pryd mae angen ymyrryd.

Cymerodd JG y cyfle i ddiolch i bawb oedd yn cymryd rhan yn uniongyrchol o fewn yr is-grwpiau a dywedodd ei bod wedi'i chalonogi gan y gwaith enfawr sy'n digwydd ar draws y rhanbarth.

Nododd JG a y rhwystredigaeth am y problemau presennol gyda phrofi a'r ffaith nad oes profi lleol ar gael yn sir Wrecsam. Holodd a oedd gwybodaeth ar gael ar nifer y profion y gwnaed cais amdanynt sydd heb gael eu trosi yn brawf. Mae hwn yn dueddiad pryderus ac mae'n gofyn bod uwch gydweithwyr yn gwbl onest ac yn agored am union raddfa'r haint.

Nododd TO fod trafodaethau ar lefel Gweinidogol ac mae LIC yn cymryd rhan yn nhrefodaethau'r DU. Yn y cyfamser, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn gwneud eu gorau i gefnogi yn lleol/rhanbarthol gyda chydweithwyr allweddol.

Nododd MWim hefyd y broblem o'r amser mae'n cymryd i brosesu canlyniadau ar borthol profi Cartrefi Gofal, sydd eisoes wedi'i hanfon i LIC. Mae MWim wedi holi hefyd am staff gofal yn y cartref a nyrsys ardal sydd heb gael y prawf antigen. Er bod yr amllder yn isel hyd yma, mae angen i hyn fod yn ffactor wrth gynllunio.

Cadarnhaodd TO fod pob un o'r materion a godwyd eisoes wedi'u bwydo'n ôl i LIC.

10 Adroddiad Diwedd Blwyddyn Cronfa Gofal Integredig (CGI) 2019/20 –Bethan Jones Edwards

Derbyniodd y Bwrdd grynodedb diwedd blwyddyn gan BJE o'r rhaglenni ICF i'w nodi a'i gymeradwyo gan y Bwrdd.

Adroddodd BJE fod terfynau amser LIC, oherwydd Covid, wedi'u cyfyngu i'r sefyllfa ariannol yn unig. Mae'r adroddiad a gyflwynwyd yn rhoi trosolwg o'r 6 rhaglen gyllido a reolir drwy ICF:

- Cynllun Buddsoddi Refeniw (CBR)
- Cynllun Buddsoddi Cyfalaf (CBC)
- Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI)
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC)
- Cynllun Peilot Ymyrraeth Therapiwtig (PYT)
- Cynllun Gaeaf (CG)

Dywedodd BJE fod prosiect GAI wedi dangos tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae hwn wedi'i gymryd yn ôl gan LIC. Yn y blynyddoedd cynt roedd LIC wedi caniatáu cario drosodd, ond gwrthodwyd hyn ar ddiwedd Mawrth 2020.

Rhoddwyd mesurau yn eu lle erbyn hyn i fonitro prosiect GAI yn ofalus ac mae Rheolwr Prosiect Rhanbarthol yr CGI yn cwrdd yn rheolaidd â'r gwasanaeth fel nad yw hyn yn digwydd eto. Cynhwyswyd astudiaethau achos yn yr adroddiad i ddangos y trawsnewid mae'r prosiectau wedi'i olygu i ddinasyddion.

Cytunodd y Bwrdd i nodi a chymeradwyo'r crynodeb diwedd blwyddyn o raglenni 2019/20 yr CGI.

11 Adolygiad Cyflym o'r Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal – Morwena Edwards

Adolygiad Cyflym o'r Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal – Morwena Edwards

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan ME ar yr Adolygiad Cyflym o'r Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal.

Adroddodd ME fod y cynllun cenedlaethol wedi'i gwblhau gan John Bolton o ganlyniad i weithdai amrywiol a gynhaliwyd ledled Cymru i helpu gyda'r darn o waith a gomisiynwyd ar yr adolygiad Cartrefi Gofal. Cynhaliwyd gweithdy Gogledd Cymru ar 21.8.2000. Bu'r Athro JB yn cyfweld llu o unigolion drwy Gymru fel rhan o'r gwaith, a oedd â dyddiad cau tynn, sef 4.9.2020. Trafodwyd yr ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad yn y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ac ychwanegodd ME fod croeso i unrhyw un gysylltu os oedd ganddynt sylwadau pellach. Dywedwyd wrth LIC nad oedd y cynllun gweithredu wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd cyn dyddiad cau 4.9.2020.

Yn yr ymateb i'r adroddiad, mae'r prif faterion a drafodwyd:

- Adeiladu partneriaethau cynhyrchiol
- Agwedd Ranbarthol
- Cynaliadwyedd: Y Gweithlu a Chyllid

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd dderbyn yr Adolygiad fel dogfen weithio, yn gweithio gyda'n gilydd fel partneriaid cyfartal mewn sector gwydn a chynaliadwy.

Cymerodd ME y cyfle hefyd i ddiolch i'r holl sector, yn gydweithwyr mewnol ac allanol, sydd wedi gweithio'n ddiflino dros y misoedd diwethaf yn ystod Covid.

Diolchodd TO i ME am ei diweddariad ar y cynllun gweithredu a gwblhawyd mewn amser byr a gofynnod i aelodau'r Bwrdd i anfon sylwadau ychwanegol cyn gynted â phosibl a chyn 18.9.2020.

12 Unrhyw fater arall – dim byd i'w adrodd

13 Er Gwybodaeth:

Cyflwynwyd y dogfennau canlynol fel gwybodaeth:

1. Llythyr gan Julie James LIC ynglŷn â rôl PSB yn y cyfnod adfer
2. Llythyr gan Vaughan Gething a Julie Morgan, LIC
3. Trefniadau cyllido rhanbarthol yn y dyfodol